# Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

## Y cefndir

Mae darparu prydau ysgol am ddim yn ymyrraeth hirsefydlog sy'n rhagflaenu'r llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, ac mae cryn dystiolaeth ar gael o effeithiau buddiol prydau ysgol am ddim ar y teuluoedd sy'n dibynnu arnynt[1].

Mae'r **Rhaglen Lywodraethu** [2] yn ein hymrwymo i barhau i ymateb i'r cynnydd yn y galw am brydau ysgol am ddim sy'n deillio o'r pandemig ac i adolygu'r meini prawf cymhwystra, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y bydd adnoddau yn caniatáu hynny, ac o leiaf i bob plentyn mewn ysgol gynradd. Mae sicrhau bod plant ysgolion cynradd yn cael cynnig pryd ysgol maethlon am ddim yn ymrwymiad a rennir ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, ac mae'r ymrwymiad hwnnw wedi'i nodi yn y **Cytundeb Cydweithio** [3].

Mae ein huchelgais i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgol gynradd yng Nghymru[4] yn y lle cyntaf, wedi'i lywio gan ein dealltwriaeth bod plant iau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi[5] incwm cymharol. Ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i hawlio ar hyn o bryd i gael prydau ysgol am ddim a chyfanswm y disgyblion mewn ysgolion cynradd, amcangyfrifir bod hyn yn golygu y bydd 186,000[6] o blant ychwanegol yn gymwys i fanteisio ar y cynnig o bryd ysgol am ddim yng Nghymru erbyn 2024.

Mae'r dull graddol o gyflwyno'r prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd wedi golygu bod pob awdurdod lleol yn barod i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion Dosbarth Derbyn o ddechrau tymor yr hydref (Medi 2022) ymlaen, a'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn ymestyn y cynnig i flynyddoedd 1 a 2 o ddechrau tymor yr haf (Ebrill 2023) ymlaen.

Bydd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn parhau i weithio ag awdurdodau lleol ar gynlluniau i ymestyn y cynllun ymhellach i flwyddyn academaidd 2023/24, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad i bob disgybl mewn ysgolion cynradd gael pryd ysgol am ddim erbyn 2024.

DRAFT

---

1 Fixing_Lunch.pdf (cpag.org.uk)

2 **Rhaglen Lywodraethu | LLYW.CYMRU**

3 **Y Cytundeb Cydwetihio: 2021 | LLYW.CYMRU**

4 Pob disgybl cofrestredig mewn Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6 mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol a phob disgybl cofrestredig oedran meithrin sy'n mynychu ysgol a gynhelir am o leiaf dwy sesiwn lawn ar unrhyw un diwrnod yr wythnos.

5 **Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 | LLYW.CYMRU**

6 Fe'i cyfrifwyd o ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2021 – ac mae'n cynnwys disgyblion meithrin cymwys mewn lleoliadau a gynhelir.

# Y tymor hir

Mae prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn gam pellach pwysig tuag at gyflawni ein huchelgeisiau cyffredin o fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau bod plant yn cael o leiaf un pryd maethlon bob diwrnod ysgol. Mae'n ymyrraeth sylweddol i gefnogi teuluoedd sy'n teimlo pwysau cynyddol costau byw, yn enwedig teuluoedd nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd ar gyfer prydau ysgol am ddim, ond sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol (incwm isel ond ychydig yn uwch na'r trothwyon cymhwystra presennol). Bydd y cynnig i holl blant ysgolion cynradd yn sicrhau chwarae teg i bob plentyn, gan helpu i leihau'r stigma sydd weithiau yn gysylltiedig â chael prydau ysgol am ddim[7], ac yn helpu i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig gan y rhai sydd ei angen fwyaf hefyd[8].

Ochr yn ochr â hyn, bydd prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn cyfrannu at ddull ysgol gyfan o ymdrin â bwyd, addysgu plant ynghylch o ble mae eu bwyd yn dod, sut mae'n cael ei gynhyrchu, yr effaith ar yr amgylchedd, ac yn gyfle i blant roi cynnig ar ystod ehangach o fwydydd, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i feithrin dewisiadau bwyd iach yn y tymor hwy.

Ymhen amser, bydd hefyd yn effeithio ar gyflenwad bwyd lleol, gan gynyddu'r maint o fwyd o Gymru sydd ar y plât cyhoeddus, lleihau cadwyni cyflenwi, a bydd hefyd o fudd i economïau lleol, gan helpu i gryfhau ein Heconomi Sylfaenol.

# Dull ataliol

Mae'r ymrwymiad i gynnig prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn un o nifer o raglenni'r cyflog cymdeithasol yng Nghymru sy'n helpu i gadw arian ym mhocedi pobl. Gan hynny, mae'n cefnogi ein hymdrechion i ddileu tlodi plant ac yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â llwgu ymysg plant trwy sicrhau bod mwy o blant yn elwa ar bryd maethlon ac iach o leiaf unwaith y dydd bob diwrnod ysgol.

Yn ogystal, rhagwelir y bydd llawer o'r canlyniadau disgwyliedig, fel gwella llesiant plant a theuluoedd, codi proffil bwyta'n iach, gwella sgiliau cymdeithasol[9] yn ystod amser bwyd, a gwelliannau mewn ymddygiad a chyrhaeddiad[10], yn cael effeithiau buddiol nawr ac yn y dyfodol, gan wella canlyniadau iechyd, lleihau anghydraddoldebau, a sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

---

[7] The cost of missing lunchtime: A Briefing on free school meals in North east of England **Testun Llawn**

[8] Expanding eligibility for free school meals in Wales – briefing for MSs and MpS IN Wales( CPAG, 2020) **Testun Llawn** ac yn ôl data a ddarparwyd ym mis Chwefror 2022 ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2022: Mewn ysgolion cynradd, roedd 42,084 allan o 57,609 (73%) o ddisgyblion cynradd sy'n gymwys i hawlio wedi cael pryd ysgol am ddim.

[9] **UIFSM-evaluation-7.compressed.pdf (epi.org.uk)**

[10] Nutrients | Free Full-Text | Universal School Meals and Associations with Student Participation, Attendance, Academic Performance, Diet Quality, Food Security, and Body Mass Index: A Systematic Review | HTML (mdpi.com)

## Integreiddio

Mae darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn ymyrraeth drawsnewidiol o ran llwgu ymysg plant a thlodi plant, ac mae'n rhan o becyn cymorth ehangach i helpu teuluoedd incwm isel a'r rhai sy'n cael trafferth yn sgil yr argyfwng costau byw.

Mae gan yr ymyrraeth y potensial i gyfrannu at nifer o agendâu polisi cyhoeddus a thrwy hynny gyflawni nifer o'r amcanion buddiol. Mae'r cynigion yn cyd-fynd yn llawn â'r Rhaglen Lywodraethu a bydd y **nodau llesiant** [11] ar gyfer Cymru decach ac iachach a'i manteision ehangach yn cyfrannu at gefnogi Cymru sy'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol gadarn.

## Cydweithio

I sicrhau llwyddiant yr ymrwymiad hwn, bydd angen gweithio ar draws portffolios Llywodraeth Cymru i gyflawni uchelgeisiau tymor byr a thymor hwy y polisi hwn. Mae strwythur llywodraethu trawslywodraethol, gan gynnwys Bwrdd Portffolio sy'n cynnwys meysydd polisi allweddol a chanddynt rôl gyfrannol, wedi'u sefydlu at y diben hwn.

Yn allanol, mae'r ymrwymiad yn gofyn am weithio'n agos â'n partneriaid cyflenwi allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol Cymru (LACA Cymru), ysgolion, cynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd, i ddatblygu dull gweithredu ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion i ddeall a lliniaru unrhyw rwystrau posibl rhag cyflawni yn well. Mae rhwydwaith o bartneriaid awdurdodau lleol Cymru gyfan yn sail i'r gwaith o gyflawni'r amcanion, a bydd ffrydiau gwaith y Bwrdd Portffolio yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phartïon eraill a chanddynt fuddiant.

## Yr hyn sydd dan sylw

Yn y camau cynllunio cychwynnol, darparwyd cyllid ychwanegol gwerth cyfanswm o £1.482m a rannwyd ar draws pob awdurdod lleol, i gefnogi'r paratoadau ar gyfer cyflwyno prydau ysgol am ddim i blant holl ysgolion cynradd o dan y tri maes canlynol:

- Ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys disgyblion, teuluoedd, a phartneriaid cyflenwi, i ddeall ymddygiad a allai effeithio ar ddarparu cynnig o bryd ysgol am ddim, a’r niferoedd sy'n manteisio arno.

- Archwiliadau o seilwaith ysgolion (gan gynnwys ceginau a chyfleusterau bwyta), y gweithlu a threfniadau cytundebol, er mwyn deall y capasiti presennol yn well, a lle bo angen datblygu/buddsoddi pellach arnynt.

[11] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2005

- Ystyried goblygiadau ymarferol newid y cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, gan archwilio a fydd rhaglenni, polisïau, ffrydiau ariannu neu hawliadau lleol sy'n defnyddio dangosydd cyfredol prydau ysgol am ddim ar lefel gynradd yn cael eu heffeithio ac a ellid eu diwygio yn y dyfodol.

- Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi llywio'r polisïau a'r cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd hyd yma, a bydd yn parhau i wneud hynny trwy ddulliau sefydledig o weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

## Yr effaith

Mae darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn ymrwymiad polisi uchel ei broffil sy'n effeithio'n eang ar amrywiaeth o grwpiau, gan gynnwys dysgwyr, teuluoedd, gweithwyr yn y sector cyhoeddus ac yn y sector preifat. O ystyried natur drawsbynciol y rhaglen hon, mae amcanion y rhaglen wedi'u hymgorffori mewn nifer o feysydd polisi, gan gynnwys cyfiawnder cymdeithasol, yr economi, yr amgylchedd, addysg ac iechyd.

Cydnabyddir bod teuluoedd, nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd i gael prydau ysgol am ddim, yn byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol ac y byddent yn elwa'n gryf ar gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun cefnogi teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd i ymdopi ag effaith yr argyfwng costau byw.

Yn ychwanegol at yr effeithiau ar ddysgwyr a'u teuluoedd a nodir uchod, rhagwelir effeithiau ehangach, sy'n cynnwys helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd, a bod o fudd i gymunedau lleol, naill ai drwy gyfleoedd cyflogaeth a gyflwynir wrth ddarparu cynnig arlwyo o safon i ysgolion neu drwy ddulliau'r Economi Sylfaenol sydd wedi'u hanelu at ddod o hyd i fwy o fwyd Cymreig ar gyfer plât yr ysgol.

At hynny, mae'r polisi yn darparu cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau mewn nifer o feysydd (iechyd; economaidd; anghydraddoldebau rhwng teuluoedd a chymunedau; a'r gweithlu). Fodd bynnag, mae risgiau hefyd y gallai darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd gynyddu anghydraddoldebau yn y meysydd hyn. Bydd gweithio â'n partneriaid cyflenwi allweddol i ddatblygu dull gweithredu a monitro parhaus ar y cyd yn ein helpu i ddeall a lliniaru anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt ymddangos.

## Costau ac arbedion

Mae £60m o gyllid cyfalaf ar gael i gefnogi awdurdodau lleol i gaffael offer a gwaith cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae gwaith ar y gweill i ganfod pa wariant cyfalaf pellach y gallai fod ei angen.

Mae £200m pellach wedi'i neilltuo i gefnogi'r awdurdodau lleol i gyflawni'r gwaith ymarferol o roi'r rhaglen ar waith dros y tair blynedd[12] nesaf. Mae hyn yn cynnwys ffi weinyddol gymedrol i dalu costau ychwanegol a ysgwyddir o ganlyniad i weinyddu'r cynnig.

Mae lefel y cyllid yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o gost darparu pryd o fwyd a'r pwysau hysbys sy'n gysylltiedig â'r gwaith ymarferol o gyflwyno'r cynnig. Mae hynny'n cynnwys y disgyblion ychwanegol a ragwelir y bydd angen eu bwydo (yn seiliedig ar 86% o gynnydd), a chan ddefnyddio cyfradd uned gyson fesul pryd ar draws Cymru. Yn ogystal, bydd hawliadau yn erbyn y cyllid yn seiliedig ar brydau gwirioneddol a ddarperir – felly os yw'r nifer sy'n manteisio yn parhau i fod yn is na'r disgwyl, bydd taliadau i awdurdodau lleol yn adlewyrchu hyn fel y bo'n briodol.

Fodd bynnag, bydd yn bwysig monitro ac adolygu dyraniadau cyllid, yn enwedig yn unol â chostau cynyddol mewn meysydd a allai arwain at gynyddu cost darparu pryd o fwyd, a sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni yn y tymor hwy. Mae gweithgor o gynrychiolwyr mewnol ac allanol perthnasol wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen ag adolygiad o'r gyfradd uned bresennol, er mwyn sicrhau cyfradd deg a fforddiadwy a fydd yn cefnogi'r ddarpariaeth yn y tymor hwy.

## Dull gweithredu

Mae cyllid hyd yma wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol drwy grant. Rhoddir ystyriaeth i ddulliau cyflawni tymor hwy ar ôl cyflwyno'r cynllun cychwynnol.

[12] Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddefnydd ychwanegol o ddata CYBLD a'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynnig.



DRAFT

# Adran 8. Casgliad

## Sut y mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cyfrannu at y gwaith o'i ddatblygu?

Bydd y rhaglen hon yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â rhanddeiliaid gweithredol allweddol. Ni fydd lawer o gyfranogiad gan blant a theuluoedd yn y cam gweithredu cychwynnol, gan y bydd angen canolbwyntio ar hwnnw'n ddiweddarach i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig ac wrth adolygu Rheoliadau Bwyta'n Iach.

Darparwyd cyllid ychwanegol i bob awdurdod lleol i gefnogi paratoadau ar gyfer cyflwyno'r cynnig i ddarparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd. Defnyddiwyd y cyllid mewn sawl ffordd ac roedd yn cynnwys:

- cefnogi ymgysylltiad cynnar â phenaethiaid ysgolion i gael adborth ar unrhyw heriau a chyfleoedd a ragwelir mewn perthynas â'r gwaith ymarferol o gyflwyno'r cynnig
- adolygiadau o gapasiti staffio a'r seilwaith presennol
- ymgynghori i fesur y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig, ac unrhyw anghenion ychwanegol a gofynion dietegol
- ymgysylltu â rhieni a disgyblion i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig a
- hyrwyddo'r cynnig trwy wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol

Byddwn yn parhau i weithio'n agos â'n partneriaid cyflawni drwy gydol y broses weithredu i adolygu'r cynnydd ac ystyried unrhyw heriau neu gyfleoedd a nodwyd, gan gynnwys unrhyw adborth sy'n dod i law gan blant a rhieni.

Wrth symud ymlaen, bydd ein cynlluniau ar gyfer ymgyrch farchnata a chyfathrebu dair blynedd i hyrwyddo'r broses o gyflwyno'r cynnig yn darparu cyfleoedd pellach i ymgysylltu â'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y polisi, gan gynnwys plant a'u rhieni, a'r rhai sy'n cynrychioli eu buddiannau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar draws y llywodraeth i integreiddio'r gweithgarwch i ymgyrchoedd ehangach Llywodraeth Cymru ar gostau byw ac unrhyw ymgyrchoedd perthnasol eraill.

## Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae'r camau gweithredu yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio yn cefnogi economi gryfach a thecach, gwasanaethau cyhoeddus gwell a diwygiedig, a Chymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

Mae'r nodau a'r amcanion llesiant yn cefnogi hyn ymhellach drwy ganolbwyntio ar y meysydd lle bo angen gweithredu i ymateb i bandemig y coronafeirws ac adfer ohono, gan osod hefyd sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol. Mae hyn hyd yn oed yn fwy hanfodol yng ngoleuni costau byw cynyddol.

Bydd parhau i fodloni'r cynnydd yn y galw am brydau ysgol am ddim ac ymestyn yr hawl i'r graddau y mae adnoddau'n caniatáu, yn gwneud cyfraniad pwysig i'r rhaglen hirdymor o



DRAFT

ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau. Yn ogystal, mae darparu prydau ysgol am ddim i holl ysgolion cynradd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi dulliau ataliol a fydd, yn y tymor hwy, yn gwella canlyniadau iechyd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd rhwng plant, teuluoedd a chymunedau.

Mae'r cynnig i ddarparu prydau ysgol am ddim i holl ysgolion cynradd yn gam pellach pwysig tuag at gyflawni ein huchelgais gyffredin o fynd i'r afael â thlodi plant. Bydd yn cynyddu nifer y plant sy'n cael pryd maethlon yn ystod y diwrnod ysgol, ac yn sgil hynny'n cefnogi maeth gwell yn fwy cyffredinol[13]. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gyfleoedd i feithrin dewisiadau bwyta'n iach yn y tymor hwy ac yn annog cyfleoedd ehangach i wneud dewisiadau byw'n iach i wella canlyniadau iechyd wrth dyfu i fod yn oedolion.

Mae gan y polisi y potensial i greu cyfleoedd i fwy o blant rannu a mwynhau pryd o fwyd gyda'i gilydd, a fydd, gobeithio, yn cael budd ar ddysgu disgyblion; ar eu sgiliau cymdeithasol ac ar eu hiechyd tymor hwy. Mae hefyd yn cynnwys llesiant ehangach, gan fod amseroedd bwyd yng nghwmni eraill yn cynnig ymdeimlad o berthyn mewn amgylchedd diogel, ac felly'n cynnig cyfle i blant a phobl ifanc ymlacio a chymryd saib i wrando ar ei gilydd a rhyngweithio ag eraill. Fodd bynnag, ni ddylai hyn effeithio ar gyfleoedd ar gyfer chwarae egnïol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu'n gryf at iechyd a lles plant; iechyd corfforol a meddyliol plant; lleihau gordewdra ymhlith plant; a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dioddef o orbryder, iselder ac anhwylderau eraill.

Gallai'r cynnig i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd hefyd leihau anghydraddoldebau a sicrhau cydlyniant cymunedol gwell rhwng y teuluoedd hynny sy'n gymwys i hawlio ar gyfer prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd a'r teuluoedd hynny sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, ac sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ond nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i fwy o deuluoedd brofi effeithiau'r argyfwng costau byw. Yn ogystal, mae'r ffaith bod y ddarpariaeth i holl blant ysgolion cynradd yn debygol o leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim sy'n dibynnu ar brawf modd. Ac mae hynny'n cynyddu'r nifer sy'n cael budd o'r ddarpariaeth gan y rhai sydd ei angen fwyaf. Bydd hynny yn ei dro yn cael effeithiau cadarnhaol yn y tymor hwy ar addysg, iechyd meddwl a lles a safonau byw pob plentyn.

Bydd y cynnig yn ceisio cefnogi cynhyrchu bwyd lleol a chadwyni cyflenwi llai - gan leihau'r ddibyniaeth ar gynnyrch sydd wedi'i fewnforio a all gael effaith waeth ar yr amgylchedd a'r hinsawdd. Bydd hefyd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi dulliau sy'n cyfrannu at wella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n gweithredu'n dda a fydd yn sicrhau manteision iechyd cadarnhaol ar draws pob cymuned yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yn cyfrannu at ddull ysgol gyfan o ymdrin â bwyd, addysgu pobl ifanc ynghylch o ble mae eu bwyd yn dod, sut mae'n cael ei gynhyrchu a'r effaith ar yr amgylchedd.

[13] Mae'r 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013' a'r canllawiau ategol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn bodloni gofynion maethol penodol iawn.

Gall llawer o'r canlyniadau tymor byr a hwy fod o fudd wrth gefnogi busnesau a rhoi hwb i'r economi ehangach, gan gadw mwy o arian ym mhocedi teuluoedd. Ar ben hynny, gallai maint y cynnig i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd gynyddu cyfleoedd gwaith o fewn y gweithlu arlwyo presennol mewn ysgolion, ac fel rhan o'r gadwyn cyflenwi bwyd o ffynonellau lleol, gan gefnogi mwy o bobl i gael gwaith, meithrin sgiliau a symud ymlaen yn eu gyrfa, sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod heriau wrth ddarparu darpariaeth gyffredinol i holl blant ysgolion cynradd, ac mae risgiau y gallai'r polisi gynyddu anghydraddoldebau rhwng plant, teuluoedd, cymunedau a'r gweithlu. Felly, bydd cyflawni'r ymrwymiad a'i uchelgeisiau tymor byr a hwy yn llwyddiannus yn gofyn am ddull cydweithredol ar draws Llywodraeth Cymru ac ar lefel leol, ar y cyd â'n partneriaid cyflawni allweddol a'r rhai yr effeithir arnynt. Bydd hyn yn hanfodol i effeithiolrwydd y polisi wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a pheidio â chynyddu anghydraddoldebau drwy:

- sicrhau bod seilwaith yr ysgolion (cyfleusterau arlwyo a bwyta) a chapasiti’r gweithlu yn ddigonol i gefnogi'r ehangu
- rheoli goblygiadau ymarferol darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd, er mwyn sicrhau ei fod yn achosi cyn lleied o darfu â phosibl, er enghraifft, gwasgaru amseroedd cinio, er mwyn sicrhau digon o amser i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau eraill
- cynnal darpariaeth o ansawdd uchel a chynyddu'r cyflenwad o fwyd Cymreig ar blât yr ysgol
- bodloni gofynion penodol y rhai sydd â'r anghenion mwyaf a’r dysgwyr hynny sydd â gofynion dietegol penodol
- darparu darpariaeth deg ar draws pob ysgol gynradd yng Nghymru a
- gwireddu manteision llawn y ddarpariaeth drwy sicrhau bod cynifer o blant ag sy'n bosibl yn manteisio ar y cynnig

## Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a’i gwerthuso?

Mae opsiynau ar gyfer gwerthusiad ffurfiol o bolisi prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae'n hanfodol bod gwerthusiad cadarn o weithredu polisi'r ddarpariaeth yn cael ei gynnal. Dylai'r gwerthusiad ystyried nid yn unig y ffordd y caiff y rhaglen ei gweithredu, ond hefyd ei heffeithiau ar draws amrywiaeth o feysydd. Y bwriad yw y bydd hwn yn werthusiad byw a fydd yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiad y ddarpariaeth wrth iddi gael ei chyflwyno.

Mae nifer o ddulliau eisoes ar waith ar gyfer monitro'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig a deall y broses o weithredu’r ddarpariaeth – byddwn yn parhau i fonitro'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig drwy adroddiadau rheolaidd i awdurdodau lleol, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd â nhw, ac yn parhau i weithio'n agos â'n partneriaid cyflawni allweddol a'r rhai y mae'r polisi yn effeithio arnynt i asesu effaith y ddarpariaeth ac a yw'n gyson â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod unrhyw rwystrau sy'n ei hatal rhag cael ei gweithredu yn cael eu nodi a'u goresgyn.

Yn ogystal, mae'n bwysig nad yw'r niferoedd sydd eisoes yn hawlio prydau ysgol am ddim (eFSM) yn lleihau o ganlyniad i'r cynnig i ddarparu prydau ysgol am ddim i holl blant

DRAFT

ysgolion cynradd, a bod teuluoedd cymwys yn dal i wneud cais am brydau ysgol am ddim er mwyn cael mynediad at fathau eraill o gymorth. Felly, byddwn yn adolygu data CYBLD i fonitro nifer y dysgwyr sy'n hawlio prydau ysgol am ddim (eFSM), ac yn asesu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach trwy ein hymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu parhaus.

Byddwn yn defnyddio'r adborth a'r hyn a ddysgir wrth gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl ysgolion cynradd i lywio meysydd gwaith allweddol eraill a fydd yn cefnogi'r ddarpariaeth ehangach a gynigir, gan gynnwys adolygu'r cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim yn fwy cyffredinol, diweddaru 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 '[14], gan sicrhau dull cydlynol o gyflenwi a chaffael bwyd, a gwneud y mwyaf o fanteision ehangach y ddarpariaeth i holl blant ysgolion cynradd drwy ddatblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â bwyd.

Yn Llywodraeth Cymru, sefydlwyd strwythur llywodraethu trawslywodraethol at y diben hwn, gan gynnwys Bwrdd Portffolio sy'n cynnwys meysydd polisi allweddol sydd â rôl gyfrannol. Yn ogystal, mae nifer o weithgorau yn cael eu sefydlu sy'n cynnwys arbenigwyr mewnol ac allanol perthnasol i gefnogi a datblygu agweddau ar y gwaith hwn.

[14] Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 (legislation.gov.uk)